# GWAHODDIAD I DENDRO

## *BRIFF PROSIECT - TRAWSCOED*

*(Document also available in English)*

**Llenwch os gwelwch yn dda**

| | |
|---|---|
| **Enw'r Cwmni** | |
| **Cyfanswm y Pris a Ddyfynnwyd** | |

## TEITL
Gwahoddiad i dendro ar gyfer darparu gwaith adfer mawndiroedd yn Trawscoed, Llanwuchllyn, LL23 7TD

## AMSERLEN
Prosiect dwy gam o 05/01/2026 i 25/03/2026 ac o 01/09/2026 i 25/03/2027

## DISGRIFIAD BYR O'R NWYDDAU A'R GWASANAETHAU SYDD EU HANGEN
Darparu gwaith adfer mawndiroedd ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) a'r Brosiect Mawn Eryri+ ar ran y 'Rhaglen Weithredu ar Fawndiroedd Cymru'. Bydd y gwaith yn cael ei wneud yn Trawscoed, safle coedwig-i-gors a gafwyd rhan fwyaf ohoni ei gwympo yn 2025 ond hefyd efo rhannau wedi ei gwympo yn flaenorol. Mi fydd y gwaith yn canolbwyntio yn bennaf yn y rhannau gwastad ac/neu ble mae'r coed wedi eu cwympo. (gweler y mapiau isod). Bydd y gwaith o adfer y safle yn cael ei gyflawnni drwy gyfuniad o lyfnu rhychau coedwigaeth ar y llethrau serth, byndiau a creu pyllau yn y rhannau gwastad, rheoli toriadau ble mae posib yn y mannau wedi cwympo yn ddiweddar, ac naddu stympiau lle mae'r angen i'r gwaith gael ei gyflawni yn effeithiol.

Mae'r dogfennau canlynol wedi'u hamgáu a rhaid iddynt gael eu cwblhau a'u llofnodi ar ran y cyflenwr, lle bo hynny'n berthnasol:

| | |
|---|---|
| Dogfen A | Cyfarwyddiadau a Thelerau ac Amodau |
| Dogfen B | Manyleb Nwyddau / Gwasanaethau |
| Dogfen C | Gwybodaeth am y Cwmni |
| Dogfen D | Atodiadau |
| Dogfen E | Ffurf y Cynnig a Geirdaon |
| Dogfen F | Tystysgrif Cynnig Bona Fide |

## GWERTH Y CONTRACT
Disgwylir dadansoddiad realistig o weithgarwch, gan gynnwys treuliau a hyd disgwyliedig y gwaith. Gall cyflenwyr hefyd gynnwys gwasanaethau / buddion ychwanegol a allai ychwanegu gwerth at y prosiect. Argymhellir yn gryf bod darpar gontractwyr yn cynnal ymweliad safle cyn cyflwyno tendr.


## GWYBODAETH AM GYLLID
Ariennir y contract gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, sy'n rhan o'r Rhaglen Weithredu ar Fawndiroedd Cymru, sef ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur, a ariennir drwy'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd a Cyfoeth Naturiol Cymru, ar ran Llywodraeth Cymru.

## CAIS
Dylid postio eich ymateb tendr mewn **amlen wedi'i selio** i swyddfeydd Parc Cenedlaethol Eryri erbyn **12:00 hanner dydd ar dydd Llun 22ain Rhagfyr**. Gweler y cyfarwyddiadau yn Nogfen A am fanylion.

Dim ond tendrau a gyflwynir yn unol â'r Telerau ac Amodau fydd yn cael eu hystyried. Gellir diystyru unrhyw dendrau sy'n anghyflawn, neu a dderbynnir ar ôl yr amser a nodir.

Os oes angen rhagor o wybodaeth neu eglurhad arnoch ynglŷn â'r tendr hwn cyn tendro, cysylltwch â Rachel Harvey ar rachel.harvey@eryri.llyw.cymru / 07464 492647. Dylai cyflenwyr sicrhau bod eu tendrau'n glir ac yn gryno ac fe'ch cynghorir petaech yn ceisio dylanwadu ar APCE wedi i'r tendrau gael eu hagor fe all hyn arwain at gael ei gwahardd.

## Safle a lleoliad Trawascoed site and location




**Graddfa / Scale:** 1:11,338

Creawdwr / Creator: Rachel Harvey


Dyddiad / Date: 28/11/2025

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025 AO AC0000825604
© Crown copyright and database rights 2025 OS AC0000825604


© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata 2025 Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
© Copyright and database rights 2025 Snowdonia National Park Authority

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ~ Snowdonia National Park Authority
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol ~ National Park Office
Penrhyndeudraeth
Gwynedd
LL48 6LF
☎ 01766 770274


**Ffigwr 1 | Lleoliad y safle a mynediad:** Trawscoed (SH 840 330) wedi lleoli i'r gogledd orllewin o Llanuwchllyn. Mae yna ffordd sengl i'r fferm a trac coedwigaeth dda i'r cylchfan ar ochr orllewinol y safle (SH 834 331). Mae'r trac yn addas ar gyfer faniau a ceir, os gyrrir yn ofalus. Mae loriau coedwigaeth hefyd wedi cyrraedd y safle yn weddol rhwydd.




**Ffigwr 2 | Gwaith coedwigaeth diweddar ac hanesyddol:** Mae'r lliw gwyrdd golau yn dangos lle gafwyd ei gwympo yn 2025, mae'r prif a'r ail lwybrau toriadau (brash) wedi nodi yn wyn. Mae'r traciau brash yma yn erydu y mawn yn ddrwg mewn mannau felly rhan o'r gwaith bydd i lyfnu (ac blocio rhai) o'r traciau brash yma. Y rhan gwyrdd 'hash' yw planhigfa goed wedi methu a gafodd ei gwympo blynyddoedd yn ôl, a'r rhan coch 'hash' oedd wedi ei baratoi ar gyfer plannu ond ni chafodd ei wneud (neu a fethodd) – mae'r ddau ardal yma gyda rhychau plannu.




**Ffigwr 3 | Llethr wedi modelu v dyfnder mawn, a patrymau llif dŵr wedi modelu:** Fe wnaethom gomisiynu arolwg manwl i ddarganfod ble allwn gyflawni dulliau adfer mawn gwahanol. Lliwiau tywyllach yn dynodi mawn dyfnach, lliwiau golau yn fawn bâsach. Coch / melyn yn rhannau gwastad, gwyrdd yn rhannau serth (llethr mwy na 10%).  Mae'r modelu hefyd yn dangos patrymau llif dŵr tebygol. Mae'r modelau yma yn hysbysu'r mapiau adfer a gellir eu defnyddio i gynllunio manylion pellach.




**Ffigwr 4 | Ardaloedd adfer wrth fath o ymyrraeth:** Byndiau yn bosib yn y rhannau gwastad gyda mawn dyfnach, llyfnu’r ddaear yn cael ei ddefnyddio a’r y darnau serth a/neu mawn bâs. Bydd rheoli toriadau (brash) a naddu stympiau yn cael ei wneud fel bo’r angen a’r y safle. Gweler dogfen B am fwy o fanylion.

# DOGFEN A

## *CYFARWYDDIADAU A THYMOR AC AMODAU*

### CYFARWYDDIADAU

1. Mae'r ddogfen hon wedi'i chynllunio i'w chwblhau'n electronig cyn cael ei hargraffu a'i phostio. Mae'n ofynnol i chi farcio blychau, mewnosod gwybodaeth neu gyflwyno dogfennau ychwanegol mewn ymateb i'r cwestiynau yma. Er y dylai'r blychau testun ehangu wrth i chi ychwanegu testun, os nad oes digon o le ar gyfer eich ymateb, atodwch ddogfen ar wahân sydd wedi'i marcio'n glir ag enw eich Cwmni, y cyfeirnod a rhif (au) y cwestiwn(au) y mae'n ymwneud â hwy. Rhowch gopïau o ddogfennau yswiriant, tystysgrifau cymorth cyntaf dilys, asesiad risg a datganiad dulliau gyda Dogfen E. Llofnodwch y ddogfen hon ar ddiwedd Dogfen F.

2. Os na allwch gydymffurfio â chais am wybodaeth neu ddarparu dogfennau y gofynnir amdanynt, yna rhaid i chi gyfiawnhau hyn yn ysgrifenedig er mwyn egluro absenoldeb y wybodaeth a dylai hyn gael ei atodi pan fyddwch yn dychwelyd y tendr hwn. Byddwch yn ymwybodol y gallai'r methiant i ymateb i unrhyw un o'r cwestiynau, heb reswm ysgrifenedig, arwain at werthusiad negyddol o'r elfen honno o fewn gwerthusiad cyffredinol yr holiadur hwn.

3. Rhaid i'r holl dendrau gael eu derbyn gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri erbyn **hanner dydd, dydd Llun 22ain Rhagfyr**. Rhaid cyflwyno tendrau **drwy'r post** mewn amlen wedi'i selio **wedi'i labelu â "Tendr, Peidiwch ag Agor - Trawscoed - NPAP"** a dylid rhoi'r cyfeiriad a ganlyn ar yr amlen:
   At sylw: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
   Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
   Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol
   Penrhyndeudraeth
   Gwynedd
   LL48 6LF
   Gellir cwblhau'r tendr yn Gymraeg neu'n Saesneg. Caniatewch ddigon o amser cyn y dyddiad cau ar gyfer postio.

4. Proses gwerthuso tendrau:
   Amserlen

| | |
|---|---|
| Anfonwyd dogfen Gwahoddiad i Dendro Allan | 01/12/2025 |
| Dogfennau tendro i'w dychwelyd | 22/12/2025 (12:00 hanner dydd) |
| Dyfarnu contract | 23/12/2025 |
| Dechrau y cyfnod gwaith cyntaf | 05/01/2026 |
| Diwedd y cyfnod gwaith cyntaf | 25/03/2026 |
| Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r anfoneb cyntaf | 25/03/2026 |
| Dechrau'r 2il gyfnod gwaith | 01/09/2026 |
| Diwedd y contract | 25/03/2027 |
| Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r anfoneb | 25/03/2027 |

*Gellir eithrio tendrau sy'n methu â bodloni gofynion hanfodol rhag cael eu hystyried*

Bydd tendrau sy'n bodloni gofynion hanfodol yn cael eu gwerthuso ar sail y pwysoliadau a nodir isod:

| Maen prawf | Pwysoliad |
|---|---|
| Cyflawni Manyleb - asesir hyn drwy ystyried a ellir bodloni'r fanyleb ai peidio ynghyd â manylion y dulliau a ddefnyddir | 40% |
| Pris tendr | 40% |
| Profiad perthnasol | 15% |
| Y gallu i gwblhau o fewn yr amser penodedig | 5% |

## MATRICS SGORIO AR GYFER MEINI PRAWF ANSAWDD

| Matrics Sgorio Ansawdd (Trothwy Isaf = 3) | | | |
|---|---|---|---|
| **Gallu** | **Tystiolaeth a Ddarparwyd** | **Sgôr** | **Sylw** |
| Mae'n debygol y bydd y cynigydd yn gallu diwallu anghenion yr Awdurdod. | Mae'r dystiolaeth yn gyson, yn gynhwysfawr, yn gymhellol, yn uniongyrchol berthnasol i'r prosiect ym mhob ffordd ac yn gredadwy iawn (dylid profi hyn gan ffynonellau annibynnol lle bo hynny'n bosibl.) | 10 | Hyder Absoliwt |
| | Mae'r dystiolaeth yn ddigonol (mewn termau ansoddol), yn argyhoeddiadol ac yn gredadwy. | 8 | Hyder |
| Risg fach na fydd y cynigydd yn gallu diwallu anghenion yr Awdurdod. | Mae mân fylchau yn y dystiolaeth, neu i raddau bach nid yw'n argyhoeddiadol, mae yna rywfaint o ddiffyg hygrededd neu mae'n amherthnasol i'r prosiect. | 6 | Mân Bryderon |
| Risg gymedrol na fydd y cynigydd yn gallu diwallu anghenion yr Awdurdod | Mae bylchau cymedrol yn y dystiolaeth, nid yw'n argyhoeddiadol. | 4 | Pryderon Cymedrol |
| Risg sylweddol na fydd y cynigydd yn gallu diwallu anghenion yr Awdurdod. | Mae bylchau mawr yn y dystiolaeth, nid yw'n argyhoeddiadol mewn sawl ffordd, mae yna ddiffyg hygrededd, neu'n amherthnasol i'r prosiect i raddau helaeth. | 2 | Prif Bryderon |
| Ni fydd y cynigydd yn gallu diwallu anghenion yr Awdurdod. | Does dim tystiolaeth neu mae'r dystiolaeth gamarweiniol. | 0 | Ddim yn dderbyniol |

## TELERAU AC AMODAU

1. Efallai y bydd APCE angen gwybodaeth neu eglurhad atodol neu dystiolaeth bellach o'r wybodaeth a roddir. Efallai yr hoffai'r APCE ymweld â safleoedd a gyfeirir atynt fel tystiolaeth o brofiad perthnasol.
2. Gellir pennu gallu cyflenwyr drwy, ymhlith ffactorau eraill, eirdaon / gyfeiriadau, ardystiad ac ymweliadau safle.
3. Atebwch y cwestiynau'n benodol ar gyfer eich cwmni, NID ar gyfer y grŵp os ydych yn rhan o grŵp o gwmnïau. Noder bod y term "Cwmni" yn cyfeirio at: Unig berchennog, partneriaeth, cwmni corfforedig, cwmni cydweithredol neu sefydliad gwirfoddol fel y bo'n briodol.
4. Ni chodir tâl ar APCE gan ymgeiswyr am unrhyw gostau paratoi a gronnwyd yn ystod y broses dendro, p'un a oedd yr ymgeisydd yn llwyddiannus ai peidio.
5. Fe'ch gwahoddir i gyflwyno eich cynnig gorau ar gyfer y gwaith fel y nodir isod. Mae'r APCE yn cadw'r hawl i gynnal trafodaethau ar ôl tendro.
6. Dylid nodi, mewn unrhyw gontract ffurfiol yr ymrwymir iddo wedyn, y cyfeirir at y wybodaeth fanwl a ddarperir yn yr ymateb ffurfiol i'r ddogfen dendro hon a ddarperir gan y sefydliad llwyddiannus. Felly bydd atebion a gwybodaeth a roddir yn eich ateb yn dod yn rhan rwymol o'r berthynas gontractiol rhyngoch chi a'r APCE.
7. Nid yw'r APCE yn rhwymo ei hun i dderbyn yr isaf nac unrhyw Dendr, ac mae'n cadw'r hawl i dderbyn rhan o Dendr yn unig. Mae'r APCE yn cadw'r hawl i gaffael elfennau unigol o'r ateb gofynnol gan un cyflenwr neu fwy fel y bo'n briodol.
8. Er bod yr APCE yn anelu at roi adborth ar gyflwyniadau na fu'n llwyddiannus, efallai na fydd hyn yn bosibl bob amser, ac nid yw'r APCE o dan unrhyw rwymedigaeth i wneud hynny.

# DOGFEN B

## *MANYLEB NWYDDAU / GWASANAETHAU*

Mae'r wybodaeth isod yn ddatganiad o ofynion sylfaenol ac ni fwriedir iddo gyfyngu ar feddwl creadigol na gwreiddiol wrth baratoi cynigion.

### GWYBODAETH AR Y SAFLE

Mae Trawscoed (SH 840 330) yn safle 79.6 hectar wedi lleoli ar derfyn de-ddwyreiniol SoDdGA a ACA Migneint-Arenig-Dduallt sydd i'r gogledd-orllewin o Llanuwchllyn. Er nad yw'r safle yn uchel (pwynt uchaf yn 424m), mae'n amgylchedd mynyddig ac gellir fod agored i'r elfennau. Mae'r mawn ar y safle yn gorwedd rhwng amryw o fryniau creigiog, a mae nifer or ardaloedd mwy cysgodol o'r safle wedi ei phlannu a choed spriws sitca ddegawdau yn ôl. Tu hwnt i'r ardal coediog mae llystyfiant sydd bennaf yn grug a llys a all fod yn drwchus iawn, ond mae darnau o gors safonol hefyd.

Cafwyd gweddill y blanhigfa Spriws sitca ei gwympo rhwng Chwefror a Hydref 2025, heblaw am y rhan i'r de o'r safle, a roedd rhai darnau wedi ei gwympo flynyddoedd ynghynt ble roedd y blanhigfa wedi methu (gweler y rhannau gwyrdd golau a gwyrdd 'hash' yn Ffigwr 2). Mae'r rhannau yma a oedd arfer bod yn goediog i gyd gyda cwysi plannu niferus ac/neu draciau toriadau (brash) sydd yn debygol o fod yn cyfrannu at ddraeniad ar draws y safle. Hefyd, mae nifer or traciau toriadau yn y rhannau sydd wedi ei cwympo yn ddiweddar (llinellau gwyn yn Ffigwr 2) gyda hafnau dyfn ac yn erydu y mawn yn ddirfawr, gyda rhai yn gweithio fel cyrsiau dŵr mewn glaw trwm. Mae yna swm sylweddol o doriadau ar ôl ar y safle, yn enwedig ar y darnau sydd wedi ei gwympo yn ddiweddar, a mae'r stympiau sydd yn weddill yma yn gwneud mynediad ac gwaith adfer yn anodd. Rydym felly yn awgrymu bod rheolaeth toriadau ac naddu stympiau yn rhan o'r cynllun adfer (gweler isod am fanylion pellach)

Mae yna ardal yn nghanol y safle sydd naill a'i eirioed wedi ei blannu neu gwnaeth y sitca byth dyfu oherwydd yr amodau gwlyb (ardal coch 'hash' yn Ffigwr 2). Er does dim stympiau na toriadau yn yr ardal yma, mae yna gwysi plannu sydd o bosib yn draenio'r safle.

Mae'r rhannau a gafodd ei adael heb ei blannu yn dueddol i fod yn fwy serth a chreigiog gyda ychydig iawn / dim mawn, felly bydd rhan fwyaf o'r ymdrechion adfer yn yr ardaloedd a arferai fod yn goediog. Ond, mae rhai ardaloedd mawn dyfn / gwastad sydd tu-hwnt i'r ardal coediog, a mae rhain wedi ei cynnwys yn y cynllun adfer ar gyfer byndiau a chreu pyllau ychwanegol. Bydd natur penodol y gwaith yma yn cael ei gadarnhau gyda'r contractiwr llwyddiannus, ond yn debygol o fod yn greu pyllau a 'blocio' ffosydd mwy cynil (lle mae'r angen) i gyd-fynd a ehangu y cynefin cors da sydd eisioes yno.

### Y GWAITH ADFER

Mae gwaith adfer wedi ei rannu yn ôl dyfnder mawn, graddfa llethr, a natur y gwaith coedwigaeth (gweler Ffigwr 3 ar gyfer canlyniadau arolwg / modelu a Ffigwr 4 ar gyfer map cynllun adfer). Sylwer bod dyfnder mawn wedi fodelu o raddfa llethr a pwyntiau arolwg manwl dyfnder mawn, felly mae yna elfen o 'lenwi y bylchau'. Rydym wedi ei ddefnyddio fel dangosydd ar gyfer ein cynllun adfer, ond gellir y dyfnderoedd mawn ar y ddaear amrywio o beth sydd wedi fodelu. Yr ardaloedd adfer yw:

- **Ardaloedd gwastad gyda mwy na 90cm o fawn (coch tywyll ar Ffigwr 4).** Mae rhain yn addas ar gyfer byndiau, a gallant fod tu allan i'r ardaloedd coediog. Bydd union leoliadau y byndiau yn cael ei gadarnhau gyda'r contractiwr llwyddiannus, a rydym yn gwahodd contractwyr i gynnig eu ffyrdd a dulliau eu hun ar gyfer y rhannau yma. Rydym am fod yn hyblyg wrth ystyried y gwahanol dirwedd a phroblemau posib a all fod, ond y nôd yw i atal draeniad artiffisial, codi y lefelau dŵr i ychydig yn is a'r wyneb, a chreu pyllau mewn mannau i hybu bioamrywiaeth. Mae'n bwysig i nodi y ni ddylir toriadau a deunydd coediog fod yn rhan o'r byndiau eu hunain oherwydd gallant greu sianeli dŵr a fuasai'n effeithio cryfder y bwnd. Y mathau o fyndiau bwriedir eu defnyddio:
    - Byndiau o dan y wyneb i atal unrhyw beipiau mawn neu graciau. Bydd rhain yn cael eu defnyddio dim ond pan mae angen ond yn fwy tebygol o fod yn angenrheidiol mewn cwysi coedwigaeth a traciau toriadau.
    - Byndiau ar y wyneb i arafu llif ar y wyneb a chreu pyllau unigol neu systemau pyllau cysylltiedig. Esiamplau o hyn yw byndiau cen-pysgod (fish-scale) neu diliau mêl (honeycomb), byndiau unigol sgolop crwm neu byndiau cyfuchlinol. Nodir, yn y mannau gwastad mae llai o gyfleoedd ar gyfer byndiau cyfuchlinol, ond gall eu defnyddio ar y llethrau bâsach (hyd at ongl 10%).
- **Ardaloedd gwastad gyda llai na 90cm o fawn (oren ar Ffigwr 4).** Mae yna ychydig o ardaloedd bach o amgylch y brif ardal byndiau sydd gyda mawn bâs, ond buasai byndiau bach dal yn addas yma i (a) cwblhau system byllau neu (b) cysylltu ardaloedd. Gellir ddefnyddio dulliau tebyg, ond disgwylir i'r byndiau fod yn fach a peidio dal llawer o ddŵr yn ôl.

- **Blocio ffosydd (glas ar Ffigwr 4).** Does dim llawer o ffosydd artiffisial ar y safle, ond dylir defnyddio dulliau blocio ffosydd confensiynol yma i atal draeniad artiffisial. ***Ni ddylai'r gwaith byndiau fod yn rhan o'r ffosydd,*** oherwydd gall y ffoes rhoi gormod o bwysau dŵr ar y bwnd. Felly, dylai byndiau orffen dwy fedr oddi wrth unrhyw ffoes, caiff blocio confensiynol ei wneud ar y ffoes, ac yna caiff byndiau ddechrau eto dwy fedr ochr arall i'r ffoes.
- **Llyfnu'r ddaear – mawn dyfnach (hash gwyrdd a'r Ffigwr 4).** Gall byndiau a'r lethrau sydd o ongl mwy na 10% achosi tir-lithriadau mawn, ac a'r fawn bâsach (50-90cm) does dim cweit digon o ddeunydd i greu bwnd cadarn. Dylir defnyddio dulliau llyfnu'r ddaear yn yr amgylchiadau yma lle mae cwysi plannu neu draciau toriadau. Mae hyn yn gwastadu y cwysi a cribau, sydd yn ei hun yn gallu ail-wlychu'r mawn ac annog adferiad. Tydi llyfnu daear ddim yn cynnwys troi stympiau pen i waered, yn hytrach mae'r grib yn cael ei dynnu neu ostwng i'r gwys yn ofalus sydd yn golygu dim ond ychydig o aflonyddwch i'r haen uchaf o fawn / llystyfiant. Ble mae'r angen, gellir defnyddio y dechneg yma tu ôl i byndiau yn y mannau gwastad.
- **Llyfnu'r ddaear – mawn bâsach (hash melyn ar Ffigwr 4).** Yn Gyffredinol, rydym yn gadael yr ardaloedd mawn bâs (llai na 50cm o ddyfnder). Ond, mae rhai mannau sydd naill a'i yn cysylltu'r pocedi o lyfnu daear, neu mae'r traciau toriadau yn erydu gweddill y mawn yn ddrwg. Yn yr achosion yma rydym yn awgrymu llyfnu'r ddaear fel yr uchod ond yn derbyn bydd pridd yn cael ei aflonyddu ac ei gynnwys yn y mawn.
- **Rheoli toriadau (brash) (pob ardal a arferai fod yn goediog, gan gynnwys y dotiau brown ar Ffigwr 4).** Mae yna lawer o dorriadau ar ôl ar y safle, sydd yn ymyryd a'r cyd-bwysedd maetholion, creu llif hydrolegol meicro a macro, a creu perygl i dda-byw. Ein ffafriaeth ni felly bysa i waredu gyn gymaint o doriadau oddi ar wyneb y mawn a phosib. Gellir defnyddio llawer o'r toriadau i wella traciau mynediad a matiau tra yn gweithio, felly yn ei gyfynu i rhannau cul rheoladwy. Gall unrhyw doriadau a fydd weddill gael ei symud oddi ar y safle (ein opsiwn gorau) neu eu hadeiladu i bentyrau cynefin. Mae yno hefyd lawer o rannau o'r safle sydd ddim yn rhan o'r brif gwaith adfer (ardaloedd dotiau brown) – ***lle mae'n bosib gwneud,*** gellir cymeryd toriadau o'r ardaloedd yma a'i defnyddio mewn traciau a matiau, neu eu rhoi i bentyrau cynefin neu eu symud oddi a'r y safle.
- **Naddu stympiau (ardaloedd a arferai fod yn goediog lle mae gwaith yn cael ei wneud).** Does dim triniaeth i'r stympiau wedi ei wneud hyd yn hyn. Y datrysiad gorau yn nhermau carbon a hydroleg ydy i adael y stympiau yn eu lle gan eu bod wedi setlo o fewn y mawn, basa eu haflonyddu yn gallu agor sianeli draenio bach a gall y naddion o'r naddu stympiau awyru y mawn yn y pendraw. Mae profiadau'r gorffennol yn dangos nad oes perygl mawr i dda-byw o stympiau coed. Gellir cael mynediad i'r ardaloedd gwahanol drwy's traciau toriadau presennol, ond bydd bron pob un o'r rhain angen toriadau ychwanegol i osgoi erydiad pellach. Fodd bynnag, er mwyn galluogi mynediad yn mhellach na'r traciau torriadau yma ac i gwblhau y gwaith adfer yn effeithiol bydd angen naddu rhai o'r stympiau yma i lawr. Wrth naddu stympiau mae angen gwahanu yr holl stwmp oddi wrth weddill y gwraidd, ac i sicrhau ddim i adael modrwy o foncyff chwaith. Mae hyn er mwyn pan yn gweithio wrth wreiddiau / stympiau'r coed, dim ond y rhan torriedig o'r gwraidd caiff ei symud yn hytrach na codi neu symyd yr holl blât wreiddiau.

Bras ardaloedd ar gyfer pob ymyrraeth:

| Math o adfer | Ardal (ha) |
|---|---|
| Bwndio (mawn dwfn) | 12.06 |
| Bwndio (mawn bas) | 0.31 |
| Llyfnhau'r ddaear (mawn dwfn) | 10.43 |
| Llyfnhau'r ddaear (mawn bas) | 4.47 |
| Blocio ffosydd (~480m) | 0.27 |
| Ardal a goedwigwyd o'r blaen (rheoli toriadau (brash) lle'n bosibl) | 36.74 |

## MYNEDIAD I'R SAFLE

Mae mynediad i'r safle yn dda. Mae yna lôn gul troellog i fyny i Trawscoed o Llanuwchllyn, ond mai wedi ei ddefnyddio gan loriau coedwigaeth yn cario coed a peiriannau yn y gorffennol. Ar ôl mynd heibio y fferm, mae yno drac da tuag at y safle gyda cylchfan fawr a lle i nifer o gerbydau (SH 834 331). Mae'r trac yma hefyd yn addas i geir a faniau os gyrrir yn ofalus.

## AMSERLEN

Bydd y gwaith yn cael y wneud dros ddau gam. Bydd y cam cyntaf, byrrach, o fis Ionawr i Mawrth 2026, gyda'r gwaith yn dod i ben ac yn cael ei anfonebu erbyn 25 Mawrth 2026. Cynhelir yr ail gam rhwng 1 Medi 2026 a 25 Mawrth 2027, gyda'r anfoneb derfynol yn cael ei chyflwyno erbyn 25 Mawrth 2027.

## YMWELIAD SAFLE'R CONTRACTWR

Argymhellir yn gryf y dylid cynnal ymweliad safle cyn cyflwyno'r cais tendr hwn. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am fynediad, cysylltwch â Rachel Harvey ar rachel.harvey@eryri.llyw.cymru / 07464 492647.

**MANYLEBAU** *(LLENWCH BOB BLWCH NEU ATODWCH DDOGFEN YCHWANEGOL)*

1. Gwaith bwndio mewn ardaloedd gwastad o'r safle, yn gyffredinol ar fawn sy'n ddyfnach na 90cm, ond bydd rhai clytiau bach o fawn basach, fel manylir yn Nogfen B. Cynhwyswch fanylion am reoli toriadau (brash) perthnasol, llyfnhau'r ddaear a malu boncyffion o fewn yn ardaloedd bwndio hwn.
   *Ydych chi'n gallu bodloni'r fanyleb hon yn llawn? Os felly, rhowch fanylion isod. Os nad ydych, nodwch unrhyw wahaniaethau yn y gwasanaeth a gynigir.*

| Manyleb wedi'i bodloni? Ydi / Wedi'i gwrdd yn rhannol / Nac ydi (ticiwch fel y bo'n briodol) ☐☐☐<br><br>Manylion |
|---|
| |

2. Llyfnhau'r ddaear ar llethrau mwy serth (mwy na 10% o lethr) lle mae mawn dwfn.
   *Ydych chi'n gallu bodloni'r fanyleb hon yn llawn? Os felly, rhowch fanylion isod. Os nad ydych, nodwch unrhyw wahaniaethau yn y gwasanaeth a gynigir.*

| Manyleb wedi'i bodloni? Ydi / Wedi'i gwrdd yn rhannol / Nac ydi (ticiwch fel y bo'n briodol) ☐☐☐<br><br>Manylion |
|---|
| |

3. Llyfnhau'r ddaear ar lethrau mwy serth lle mae mawn bâs, a / neu llyfnu'r ddaear neu o bosib blocio traciau toriadau (brash) dwfn sydd yn ymddwyn fel cwrs dŵr.
*Ydych chi'n gallu bodloni'r fanyleb hon yn llawn? Os felly, rhowch fanylion isod. Os nad ydych, nodwch unrhyw wahaniaethau yn y gwasanaeth a gynigir.*

| |
|---|
| Manyleb wedi'i bodloni? Ydi / Wedi'i gwrdd yn rhannol / Nac ydi (ticiwch fel y bo'n briodol) ☐☐☐<br><br>Manylion |

4. Blocio 480m o ffosydd ar draws y safle. Bydd argaeau'n cynnwys gorlif-ffyrdd bach, lle bo'n briodol, i ganiatáu i'r dŵr lifo i'r corff mawn, i ffwrdd o'r ffoes. Yr adnodd mawn ar y safle yw'r deunydd a ffefrir i weithio gydag ef lle bo hynny'n ymarferol. Bydd yr ymylon hefyd yn cael hail-broffilio ar hyd y ffosydd rhwng yr argaeau.
*Ydych chi'n gallu bodloni'r fanyleb hon yn llawn? Os felly, rhowch fanylion isod. Os nad ydych, nodwch unrhyw wahaniaethau yn y gwasanaeth a gynigir.*

| |
|---|
| Manyleb wedi'i bodloni? Ydi / Wedi'i gwrdd yn rhannol / Nac ydi (ticiwch fel y bo'n briodol) ☐☐☐<br><br>Manylion |

5. Rheoli toriadau (brash) ar drws yr ardal waith a'r safle ehangach (lle yn bosibl), gan adael wyneb y mawn mor glir o doriadau â phosibl.
*Ydych chi'n gallu bodloni'r fanyleb hon yn llawn? Os felly, rhowch fanylion isod. Os nad ydych, nodwch unrhyw wahaniaethau yn y gwasanaeth a gynigir.*

| |
|---|
| Manyleb wedi'i bodloni? Ydi / Wedi'i gwrdd yn rhannol / Nac ydi (ticiwch fel y bo'n briodol) ☐☐☐<br><br>Manylion |

6. Malu / trin boncyffion lle bo'n briodol ar drws y safle, gan adael y plât gwreiddiau mor gyfan â phosibl.
*Ydych chi'n gallu bodloni'r fanyleb hon yn llawn?*
*Os felly, rhowch fanylion isod. Os nad ydych, nodwch unrhyw wahaniaethau yn y gwasanaeth a gynigir.*

| |
|---|
| Manyleb wedi'i bodloni? Ydi / Wedi'i gwrdd yn rhannol / Nac ydi (ticiwch fel y bo'n briodol) ☐☐☐<br><br>Manylion |

7. Mynediad, olrhain a draws y safle, ac offer: Bydd dulliau mynediad i'r safle ac oddi ar y safle yn defnyddio digon o ffyrdd i atal difrod i lwybrau mynediad, cynefinoedd a thir ar hyd y safle. Dylid cwblhau'r gwaith hwn gan ddefnyddio o leiaf un cloddiwr, heb fod yn fwy na 10 tunnell ac ar draciau pwysedd tir isel, a defnyddio matiau cors lle bo'n briodol. Rhaid cwblhau asesiad risg 'bogging' a'i drafod gyda'r rheolwr prosiect cyn i'r gwaith ddechrau.
*Ydych chi'n gallu bodloni'r fanyleb hon yn llawn? Os felly, rhowch fanylion isod. Os nad ydych, nodwch unrhyw wahaniaethau yn y gwasanaeth a gynigir.*

| |
|---|
| Manyleb wedi'i bodloni? Ydi / Wedi'i gwrdd yn rhannol / Nac ydi (ticiwch fel y bo'n briodol) ☐☐☐<br><br>Manylion |

8. Mesurau amgylcheddol a diogelwch: Bydd gan y contractwr fesurau ar waith i ail-gyflenwi tanwydd y peiriannau a ddefnyddir ar y safle yn ddiogel, gan osgoi halogiad amgylcheddol a pherygl i'r contractwr(au) a'r cyhoedd. Yn ddelfrydol, bydd pwmp tanwydd yn cael ei ddefnyddio i ail-gyflenwi tanwydd. Bydd gofyn i bob contractwr hefyd ddarparu Asesiad Risg Bioddiogelwch penodol i'r safle / gwaith fel rhan o'r broses dyfarnu contract. Bydd y rhain yn cynnwys manylion sut y byddant yn cymryd pob cam rhesymol i osgoi cyflwyno rhywogaethau estron ymledol (INNS) neu glefydau i safle, a / neu gludo INNS neu glefydau o'r safle (gan felly halogi eraill o bosibl). Ar ben hynny, bydd y contractwr yn dilyn canllawiau iechyd a diogelwch i osgoi perygl i gontractwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol.
*Ydych chi'n gallu bodloni'r fanyleb hon yn llawn? Os felly, rhowch fanylion isod. Os nad ydych, nodwch unrhyw wahaniaethau yn y gwasanaeth a gynigir.*

| |
|---|
| Manyleb wedi'i bodloni? Ydi / Wedi'i gwrdd yn rhannol / Nac ydi (ticiwch fel y bo'n briodol) ☐☐☐<br><br>Manylion |

9. Bydd y Contractwr yn cwblhau'r gwaith o fewn yr amserlen benodedig. Bydd y gwaith ar y safle yn cael ei gwblhau dros ddau gam: 05/01/26 – 25/03/2026 a 01/09/2026 – 25/03/2027. Bydd APCE yn cael ei anfonebu erbyn 25/03/2026 ar gyfer y cam cyntaf, ac erbyn 25/03/2027 ar gyfer yr ail cam.
*Ydych chi'n gallu bodloni'r fanyleb hon yn llawn? Os felly, rhowch fanylion isod. Os nad ydych, nodwch unrhyw wahaniaethau yn y gwasanaeth a gynigir.*

| |
|---|
| Manyleb wedi'i bodloni? Ydi / Wedi'i gwrdd yn rhannol / Nac ydi (ticiwch fel y bo'n briodol) ☐☐☐<br><br>Manylion |

# DOGFEN C

## *GWYBODAETH AM Y CWMNI*

| 1 | **Enw'r cwmni** |
|---|---|
| | **Enw Cofrestredig**<br><br>**Enw Masnachu (os yw'n wahanol)** |

| 2 | **Manylion Gohebiaeth** |
|---|---|
| | **Enw'r person sy'n gwneud cais ar ran y cwmni**<br><br>**Cyfeiriad:**<br><br>**Ffôn:**<br><br>**Mobile:**<br><br>**E-bost:** |
| | **<u>Cyfeiriad swyddfa gofrestredig (os yw'n wahanol i'r uchod)</u>** |

| 3 | **Cofrestru Cwmni** |
|---|---|
| | **Rhif Cofrestru'r Cwmni (os yw'n berthnasol)**<br><br>**Rhif cofrestru TAW (os yw'n berthnasol)**<br><br>**Rhif Tystysgrif Ymgorffori** |

| 5 | Strwythur a natur y cwmni |
|---|---|
| | Amlinellwch natur y cwmni, boed yn bartneriaeth, yn unig fasnachwr, ccc ac ati.<br><br>A yw'r cwmni'n cael ei gynnig fel rhan o gontract sefydliad mwy? Os felly, esboniwch y berthynas rhwng gwahanol rannau'r sefydliad, hyd at y prif gwmni daliannol.<br><br>Nifer presennol y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogir ar hyn o bryd gan y cwmni (nid rhiant-gwmni mwy) |

# DOGFEN D

## *ATODIDAU*

| 1 | **Yswiriant** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Yswiriant (ticiwch a chyflenwi copi o bob tystysgrif lle bo'n briodol) | | | | |
| | | **Yswiriwr** | **Polisi Rhif** | **Gwerth y Warchodaeth** | **Dyddiad Dod i Ben** |
| | **Atebolrwydd Cyflogwyr** | | | | |
| | **Atebolrwydd Cyhoeddus** | | | | |
| | **Pob Risg (os yw'n berthnasol)** | | | | |

| 2 | **Cymorth Cyntaf** | | |
|---|---|---|---|
| | **Rhestrwch y pobl sy'n gymwys mewn cymorth cyntaf cymwys a fydd yn gweithio ar y safle a dyddiad a math eu cwrs cymorth cyntaf diwethaf (rhowch gopi o bob tystysgrif)** | | |
| | **Enw** | **Dyddiad y cwrs diwethaf** | **Math o gymorth cyntaf (e.e. REC Awyr Agored, Cymorth Cyntaf yn y Gwaith,FAW+F)** |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

| 3 | **Asesiad risg** | |
|---|---|---|
| | **Rhowch gopi o'ch asesiad risg ar gyfer y contract. Atodedig:** | **Y / N** |

| 4 | **Datganiad dulliau** | |
|---|---|---|
| | **Rhowch gopi o'ch datganiad dulliau ar gyfer y contract. Atodedig:** | **Y / N** |

# DOGFEN E

## *FFURF Y CYNNIG A'R GEIRDAON*

### COST

Llenwch y manylebau yn ôl y gofyn a rhowch amcangyfrif o nifer y diwrnodau. Mae'r manylebau a nifer y dyddiau sy'n cyfateb i 8 awr wedi'u rhestru fel canllaw i'ch helpu i gostio'r gwaith, ond 'Cyfanswm Cost' yn faes gorfodol.

| | |
|---|---|
| Manyleb 1 (Gwaith bwndio) | £ + TAW |
| *Nifer y diwrnodau cyfwerth ag 8 awr:* | |
| Manyleb 2 (Llyfnhau’r ddaear – mawn dwfn) | £ + TAW |
| *Nifer y diwrnodau cyfwerth ag 8 awr:* | |
| Manyleb 3 (Llyfnhau’r ddaear – mawn bas) | £ + TAW |
| *Nifer y diwrnodau cyfwerth ag 8 awr:* | |
| Manyleb 4 (Blocio ffosydd) | £ + TAW |
| *Nifer y diwrnodau cyfwerth ag 8 awr:* | |
| Manyleb 3 (Rheoli toriadau (brash)) | £ + TAW |
| *Nifer y diwrnodau cyfwerth ag 8 awr:* | |
| Manyleb 3 (Malu boncyffion, yn ôl yr angen) | £ + TAW |
| *Nifer y diwrnodau cyfwerth ag 8 awr:* | |
| **CYFANSWM cost ar gyfer darparu gwasanaethau, fel Yr amlinellir yn y manylebau (Dogfen B)** | **£** **+** TAW |
| ***CYFANSWM diwrnodau cyfwerth ag 8 awr:*** | |

### TÎM PROSIECT ARFAETHEDIG

Nodwch y personél y disgwylir iddynt reoli a chyflawni'r contract hwn gyda APCE a'u meysydd cyfrifoldeb. Dylech gynnwys cymwysterau technegol a manylion profiad. (Atodwch ddogfen ar wahân os oes angen)

### GWASANAETH AR ÔL GWERTHU

Nodwch fanylion unrhyw gyfnod gwarant sy'n gysylltiedig â'r gwaith, a sut y bydd unrhyw waith o'r fath yn cael ei wneud. Dylech gynnwys manylion cynllunio wrth gefn rhag ofn y bydd trychineb (fel tân, streiciau, llifogydd, eira ac ati). (Atodwch ddogfen ar wahân os oes angen)

## GEIRDAON / TYSTLYTHYRAU

Gofynnir i gyflenwyr ddarparu manylion hyd at dri geirda gan eu cleientiaid presennol. Atodwch ddogfennau ychwanegol os oes angen. Wrth ddarparu'r wybodaeth hon, bydd Cyflenwyr wedi rhoi caniatâd i APCE i ofyn am unrhyw wybodaeth yr ystyrir ei bod yn angenrheidiol, mewn perthynas â pherfformiad y Cyflenwyr gyda'u geirdaon / tystlythyrau enwebedig.

**Cyfeirnod 1**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw'r Cwmni** | | | |
| **Enw'r Cyswllt** | | | |
| **Cyfeiriad** | | | |
| **Rhif ffôn (ac est)** | | **E-bost** | |
| **Gwerth y contract** | | **Dyddiadau'r gwaith** | |
| **Natur y gwaith a wnaed:** | | | |

**Cyfeirnod 2**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw'r Cwmni** | | | |
| **Enw'r Cyswllt** | | | |
| **Cyfeiriad** | | | |
| **Rhif ffôn (ac est)** | | **E-bost** | |
| **Gwerth y contract** | | **Dyddiadau'r gwaith** | |
| **Natur y gwaith a wnaed:** | | | |

**Cyfeirnod 3**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw'r Cwmni** | | | |
| **Enw'r Cyswllt** | | | |
| **Cyfeiriad** | | | |
| **Rhif ffôn (ac est)** | | **E-bost** | |
| **Gwerth y contract** | | **Dyddiadau'r gwaith** | |
| **Natur y gwaith a wnaed:** | | | |

# Dogfen F

## *Tystysgrif Cynnig Bona Fide*

Rydym yn ardystio bod y cynnig hwn yn cael ei wneud yn ddidwyll, ac nad ydym wedi pennu nac addasu swm y cynnig gan neu o dan neu yn unol ag unrhyw gytundeb fel trefniant gydag unrhyw berson arall. Rydym hefyd yn ardystio nad ydym, ac rydym yn ymrwymo na fyddwn yn:

1. (a) cyfleu i unrhyw berson ac eithrio'r person sy'n gwahodd y cynigion hyn y swm neu swm bras y cynnig neu'r cynnig arfaethedig, ac eithrio pan fo angen datgelu, yn gyfrinachol, swm bras y cynnig i gael dyfynbrisiau yswiriant sy'n ofynnol ar gyfer paratoi'r cynnig; b) ymrwymo i unrhyw gytundeb gydag unrhyw berson arall y byddant yn ymatal rhag gwneud cynnig neu o ran swm unrhyw gynnig sydd i'w gyflwyno;
2. talu, rhoi neu gynnig neu gytuno i dalu neu roi unrhyw swm o arian neu ystyriaeth werthfawr arall yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i unrhyw berson am wneud neu am fod wedi gwneud neu achosi neu fod wedi achosi i unrhyw gynnig neu gynnig arfaethedig am y nwyddau/gwasanaethau unrhyw weithred neu beth o'r math a ddisgrifir yn 1 a) neu 1 b) uchod.

Rydym yn cydnabod, os byddwn yn gweithredu neu'n gweithredu'n groes i'r dystysgrif hon, y bydd gan APCE hawl i ganslo'r cytundeb ac i adennill oddi arnom ni ein hunain swm unrhyw golled a chost sy'n deillio o ganslo o'r fath.

Dywedaf fod popeth yn y cyflwyniad tendr hwn yn onest, os canfyddir ei fod yn anwiredd, gall APCE derfynu unrhyw gytundeb rhwng APCE a'r cwmni a ffurfiwyd ar sail y tendr hwn, a byddwn yn talu i APCE unrhyw golled neu dreuliau y mae APCE yn eu dioddef o ganlyniad i anwiredd o'r fath, p'un a oes cytundeb yn cael ei wneud ai peidio.

Yn y dystysgrif hon, mae'r gair "person" yn cynnwys unrhyw bersonau ac unrhyw gorff neu gymdeithas, corfforaethol neu anghorfforedig; mae "unrhyw gytundeb neu drefniant" yn cynnwys unrhyw drafodiad, ffurfiol neu anffurfiol, boed hynny'n gyfreithiol rwymol ai peidio.

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd | |
| Ar ran | |
| Dyddiad | |

**Noder: mae enw a ychwanegir mewn dogfen electronig yn cyfateb yn swyddogaethol i lofnod.**